www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Twristiaeth yn herio'r wasgfa ariannol

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Twristiaeth yn herio'r wasgfa ariannol

Mae sefydliad twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu Gogledd Cymru i herio'r wasgfa ariannol.

Datgelodd Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru fod ei hymgyrchoedd wedi cyflawni ei tharged o gyfrannu £16.5 miliwn yn ychwanegol i'r economi ranbarthol.

Mae'r newyddion da yn cael ei rannu yn adolygiad blynyddol diweddaraf y Bartneriaeth Twristiaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

Cred y Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol, Dewi Davies, na ellir gorbwysleisio cyfraniad twristiaeth i iechyd a lles economaidd cyffredinol Gogledd Cymru.

Mae'n ddiwydiant gwerth £1.8 biliwn sy'n gyfrifol am wyth y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y rhanbarth ac sy'n cyflogi 39,000 o bobl.

Meddai Mr Davies: "Unwaith eto eleni fe wnaethom gomisiynu cyfres o ymgyrchoedd effeithiol i hyrwyddo'r rhanbarth yn frwd mewn marchnadoedd allanol, ar sail ein hasedau unigryw o ran diwylliant, hanes a'r amgylchedd.

"Y prif newyddion o safbwynt y Bartneriaeth Twristiaeth yw ein bod wedi cyflawni ein targed o gynhyrchu £16.5 miliwn o wariant gan ymwelwyr. Am bob £1 a wariwyd gennym, cynhyrchodd ein hymgyrchoedd £17.80 pellach.

"Rydym yn arbennig o falch o'r record yma oherwydd mae'r pwysau ariannol sy'n effeithio ar Groeso Cymru yn ein llethu ninnau hefyd.

"Fel yn achos sefydliadau eraill, bu gostyngiad o 10 y cant yn ein cyllideb, o £1.444 miliwn i £1.030 miliwn – ac rydym yn disgwyl gostyngiad pellach o £50,000 yn ein cyllideb ar gyfer 2008-09.

"Mae'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr economi ehangach yn gleddyf deufin i'r economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

"Mae rhesymeg y dirywiad yn dweud bod gan bobl lai o incwm dros ben i'w wario ar wyliau tramor.

"Un o ganlyniadau hynny yw bod gwyliau'n nes at adref yn haws i'w fforddio ac mae hynny'n golygu cyfle i ni yma yng Ngogledd Cymru.

"Hyd yn oed cyn y wasgfa ariannol sydd ohoni, roedd natur twristiaeth wedi newid ac mae'n dal i esblygu – ac mae hynny'n

llun: eyeimagery

tudalen flaenorol ◀ ▶ tudalen nesaf

golygu bod datblygu ein busnes y tu allan i'r tymor yn hanfodol.

"Rhaid i ni edrych ar dwristiaeth yn ei chyfanrwydd. Nid busnes gwyliau a dyddiau allan yn unig ydyw. Mae angen i ni ddatblygu'r misoedd pontio fel ein bod yn creu cyfle drwy gydol y flwyddyn.

"Mae'n hanfodol fod y gwahanol ardaloedd marchnata yng Ngogledd Cymru'n gweithio mewn partneriaeth a'n bod i gyd yn cydweithio fel tîm.

"Mae'n hollbwysig hefyd fod y fasnach a'r cyrff cyhoeddus yn ymdrechu ar y cyd er lles gorau pawb.

"Os ydym yn ddoeth ac yn meddwl yn gydlynol, bydd ein synergedd yn golygu bod gan Ogledd Cymru rywbeth i'w gynnig sy'n fwy na swm y rhannau unigol.

"Rwy'n meddwl ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn ond mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i wella'r cynnyrch twristiaeth.

"Rydym eisiau symud yr economi twristiaeth ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru yn ei blaen ac mae heriau mawr yn ein hwynebu.

"Mae angen i ni weithredu'n strategol fel y gallwn flaenoriaethu'r math cywir o fuddsoddiadau oherwydd mae'n fyd hynod o gystadleuol allan yna.

"Mae yna fwy na 2,000 o gyrchfannau twristiaeth yn Ewrop yn unig ac mae pob un ohonyn nhw'n cystadlu am yr un math o incwm â'r hyn rydym ni'n gobeithio ei gael yng Ngogledd Cymru.

"Mae gennym asedau naturiol hudolus, o'r radd flaenaf – mynyddoedd ysblennydd, golygfeydd godidog ac arfordir gwefreiddiol, heb sôn am ein treftadaeth ddiwylliannol unigryw. Mae gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym yn ddyletswydd arnom.

"Mae angen i ni sicrhau bod yr economi ymwelwyr o fudd i'r cymunedau lle mae'n gweithredu. Felly, rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu'r diwydiant mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy."

www.tpnw.org

Llun: eyeimagery

Gwenwch i guro'r dirwasgiad medd 'guru' twristiaeth



Clywodd busnesau twristiaeth Gogledd Cymru fod modd iddyn nhw guro'r gwaethaf o'r dirwasgiad trwy wenu mwy.

Dyna gyngor arbenigwr blaenllaw ym maes twristiaeth a fu'n annerch cyfarfod blynyddol Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru.

Meddai'r Athro John Lennon, ar y dde, o Ganolfan Moffat Prifysgol Glasgow Caledonian, un o brif arbenigwyr Ewrop ar dwristiaeth: "Cofiwch mor werthfawr yw gwên.

"Gallaf faddau llawer os bydd rhywun yn gwenu – rwy'n bell oddi cartref, a'r cyfan rwyf eisiau yw i chi fod yn glên gyda mi.

"Nesáu at gwsmeriaid, ceisio eu deall nhw a lle maen nhw'n mynd a chreu perthynas bersonol mewn byd amhersonol sydd tu ôl i'r cyfan.

"Sut mae ei gwneud hi'n syml iawn iddyn nhw ddychwelyd, pa gynigion arbennig sydd gennym i gadw cwsmer gwerthfawr oherwydd ar ôl troi 40 rydym yn tueddu i dilyn yr un hen arferion.

"Felly mae'n golygu creu profiad dilys a synnwyr o le ac er bod Cymru'n dod yn well am wneud hynny, mae ganddi beth ffordd i fynd eto."

Dywedodd yr Athro Lennon, sydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Visit Scotland, fod Gogledd Cymru mewn gwell sefyllfa na llawer o ardaloedd i oroesi'r dirwasgiad, oherwydd ei leoliad.

"Yn yr hinsawdd sydd ohoni dydyn ni ddim yn mynd i weld cynnydd mewn twristiaeth, mater o gydgyfnerthu yw hi.

"Dylem edrych tua Lloegr a rhannau o Gymru, ac mae yna gyfleoedd da yn y farchnad fewnol honno yn y DU, pobl sy'n byw o fewn taith awr i dair awr i ffwrdd yn dod am wyliau byr yn hytrach nag am bythefnos ar gyfer prif wyliau'r teulu.

"Dydyn ni ddim yn mynd i weld llawer o fusnes o gyfeiriad Ewrop na'r Unol Daleithiau - rhywbeth lleol yw hyn a rhaid i ni ganolbwyntio ar eu denu i Gymru.

"Mae hunanarlwyo pum seren yn gwneud yn dda iawn yn yr Alban ond mae'r farchnad ganol dan bwysau yno, felly rhaid anelu at farchnad uwch oherwydd yr ochr foethus sy'n trechu mewn dirwasgiad."

Ond ychydig o obaith oedd gan yr Athro Lennon y byddai Gemau Olympaidd Llundain yn achub croen twristiaeth yng Nghymru: "Ar gyllideb Visit Britain y mae effaith fwyaf sylweddol y Gemau Olympaidd a bydd hynny'n parhau am y pum mlynedd nesaf.

"Efallai mai'r siawns orau fyddai ceisio denu pobl o Lundain sydd wedi cael

tudalen flaenorol ◀ ▶ tudalen nesaf

llond bol ar y tarfu a'r tagfeydd y mae'r Gemau Olympaidd yn eu hachosi - pwy oedd y diwethaf i wneud elw o'r Gemau tybed?"

Ategwyd ei eiriau gan Jonathan Jones, Cyfarwyddwr Twristiaeth a Marchnata Croeso Cymru a ddywedodd: "Mae angen i ni roi mwy o groeso i bobl, i wneud yn siŵr eu bod yn cael y profiad mwyaf anhygoel ar ôl dod yma.

"Prin iawn yw'r bobl yn y diwydiant sy'n gwenu wrth gyfathrebu."

Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd rhoi synnwyr o le i ymwelwyr sy'n dod i Gymru a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn hynny o beth: "Mae llawer o bobl yn dweud fod Saeson yn casáu'r iaith Gymraeg.

"Dydi hynny ddim yn wir ond rhaid i ni ddefnyddio'r iaith fel ffordd o fod yn gynnes a chroesawgar tuag at ein hymwelwyr ac mae pobl o wledydd tramor yn rhyfeddu fod yna iaith arall yma.

"Cwpan Ryder 2010 fydd ein Gemau Olympaidd ni ac rydym yn defnyddio hynny gan na fydd yn digwydd eto yn ystod ein hoes ni.

"Erbyn hyn Nefyn yw'r maes golff y gwelir y mwyaf o luniau ohono drwy Ewrop, os nad y byd – dyma'r Palm Springs Ewropeaidd.

"Roedd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, yn wych yng Nghwpan Ryder yn Valhalla wrth bwysleisio nad oedd Cwpan Ryder yn dod i Brydain nac i Loegr, ond i Gymru."

Meddai Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth Twristiaeth: "Er bod y rhagolygon yn dweud y bydd busnes twristiaeth i lawr 10 y cant, mae Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i ddenu ymwelwyr o drefi mawr Lloegr.

"Ni welwyd effaith ar ben uchaf y farchnad dwristiaeth. Nid yw pobl wedi anghofio'u dyhead i fynd ar wyliau.

"Rhaid i gyrchfannau llwyddiannus allu cynnig delweddau gweledol sy'n cipio'r dychymyg ynghyd â'r cyfle i flasu profiadau go iawn, symlrwydd a dihangfa.

"Ein prif flaenoriaethau fydd cadw cwsmeriaid presennol, a datblygu perthynas bersonol mewn byd amhersonol."

tudalen flaenorol ◄